CYSWLLT

Cymdeithas Cyfathrebwyr Cymru

CYSWLLT 2011: Crynodeb y Cadeirydd

Fforwm a llais i siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio'n broffesiynol ym maes Cyfathrebu yw Cyswllt. Fe'i sefydlwyd yn 2001, a nod y gymdeithas yw trefnu gweithgareddau a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ym meysydd cysylltiadau cyhoeddus, materion cyhoeddus, marchnata a gwasanaethau cysylltiol.

Mae Cyswllt yn cynrychioli unigolion a chorfforaethau sy'n gweithio'n annibynnol, mewn cwmnïau preifat neu sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. I ddathlu deg mlynedd o Cyswllt eleni, penderfynodd y tîm rheoli gosod nifer o dargedau er mwyn dathlu'r llwyddiant a hefyd er mwyn datblygu Cyswllt yn gymdeithas fwy llwyddiannus.

Eleni cafodd Cyswllt ei rheoli o ddydd i ddydd gan ysgrifenyddiaeth FBA (yn Aberystwyth) a hefyd dîm rheoli.

Aelodau'r Tîm Rheoli yn ystod 2011 oedd:

Meilyr Ceredig- FBA PR/Dylunio (Cadeirydd)
Dafydd Davies - FBA PR/Dylunio (Trysorydd Cyswllt)
Angharad Jones - FBA PR/Dylunio (Ysgrifennydd Cyswllt)
Heulyn Davies -Grŵp Post Brenhinol Cymru
Gwydion Lyn - S4C
Rhydian Thomas - Y Comisiwn Etholiadol
Ceri John - Y Comisiwn Etholiadol
Catrin Millar - Equinox Communications
Catrin Mears - Amgueddfa Cymru

Cynllun y Tîm Rheoli am 2011

Penderfynwyd penodi **FBA Group** yn ysgrifenyddiaeth i'r gymdeithas yn 2011, gan ddefnyddio holl wasanaethau FBA am ddim o ddylunio i greu gwefan newydd sbon. Yn gynnar wedi i'r tîm rheoli eu penodi, penderfynwyd cael amnest (aelodaeth rhad ac am ddim) am y flwyddyn gyfan i unrhyw un yn y sector cyfathrebu a'n holl aelodau presennol er mwyn dathlu deg mlynedd o Cyswllt.

Gobaith y tîm rheoli oedd y byddai'r amnest yn cynyddu nifer yr aelodau a fyddai yn golygu gallu trefnu mwy o ddigwyddiadau, rhwydweithio a chymorth mentora.

I gyd-fynd â dathlu'r llwyddiant penderfynwyd ar nifer o ddigwyddiadau ar gyfer yr aelodau ynghyd â datblygu cynlluniau i lansio cangen y Gogledd.

Canlyniadau hyd yn hyn

- Gair o'r Gadair (cylchlythyr misol) gan y cadeirydd bob mis sy'n hyrwyddo'r digwyddiadau gerllaw ynghyd ag unrhyw newyddion sy'n berthnasol i'r aelodau megis swyddi perthnasol.

- Wedi trefnu dros 10 digwyddiad (sy'n record i Cyswllt) dros y flwyddyn ddiwethaf - o ymweliadau â'r BBC i daith i Lundain.

- Cychwyn strategaeth ar-lein i gynnwys cyfrifon Twitter (dilynwch ni heddiw ar www.twitter.com/Cyswllt) Linked-In a Facebook. Mae'r strategaeth ar-lein hefyd yn cynnwys FBA yn dylunio, gweithredu a rheoli gwefan newydd sbon i Cyswllt www.cyswllt.org.uk (lansiwyd ar y 5ed o Fai 2011) sydd wedi gweld dros 1,000 o ymweliadau â'r wefan ynghyd â dros 600 o ddefnyddwyr unigryw.

- Aelodaeth Cyswllt wedi treblu i dros 300 (sy'n cynnwys trefniadaeth a dylunio carden ymaelodi newydd gan FBA)

- Lansio Cangen y Gogledd Cyswllt yn Eisteddfod Wrecsam ym mis Awst 2011. Mae hefyd sôn am greu Cangen Llundain wedi digwyddiad llwyddiannus Cyswllt yn Llundain yn ystod mis Tachwedd.

- Aelodaeth Gorfforaethol Cyswllt wedi cynyddu i saith aelod (sy'n record i Cyswllt).